GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 14: wythnos **19/04/2021**

## Cynnydd Wythnosol (12 - 19 Ebrill)



**Rydym bellach wedi rhoi cyfanswm o 439,533 o frechlynnau (cyfuniad o ddosau cyntaf ac ail ddosau) yn ardal ein Bwrdd Iechyd. Erbyn hyn, rydym wedi brechu dros 70% o bobl yn yr oedran 40-49, a bydd unigolion rhwng 35 a 39 oed yn dechrau cael llythyrau gwahoddiad yn ystod yr wythnosau nesaf.**

I'r rhai 29 oed ac iau nad ydynt mewn grŵp risg clinigol, mae'r JCVI wedi diwygio eu canllawiau, sydd bellach yn nodi y dylid cynnig dewis arall yn hytrach na'r brechlyn COVID-19 AstraZeneca i'r garfan hon, os oes un ar gael.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/use-of-the-astrazeneca-covid-19-vaccine-jcvi-statement/jcvi-statement-on-use-of-the-astrazeneca-covid-19-vaccine-7-april-2021.

Os ydych yn 30 oed neu hŷn, ni chewch ddewis pa frechlyn rydych yn ei gael. Byddwch yn cael gwybod pa frechlyn y byddwch yn ei gael yn ystod eich apwyntiad, a bydd cyfle ichi drafod unrhyw bryderon sydd gennych gyda'r staff yn ein canolfannau brechu. Mae ein staff brechu yno i wrando arnoch a'ch helpu hefyd os oes gennych ffobia nodwyddau.



## Stori Newyddion Da

Llongyfarchiadau i'r Uwchgapten Tom Shaw (llun ar y chwith pell) o Lansadwrn, Sir Gaerfyrddin, a ddewiswyd i gael dyrchafiad i safle Is-gyrnol ar 11 Chwefror. Hefyd, Dewiswyd y Sarsiant Stefan Beckford i gael dyrchafiad i safle Sarsiant Staff ar 1 Ebrill. Maent wedi bod yn cynorthwyo gyda'r rhaglen frechu ar yr ochr cynllunio a logisteg.

## Apwyntiadau

Os ydych yn 40 oed a hŷn ac wedi methu eich apwyntiad ar gyfer dos cyntaf COVID-19, llenwch y ffurflen ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-40-and-above-and-not-received-your-covid-19-vaccination-appointment/.

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 19/04/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**439,533**

**Cyfanswm y dos cyntaf 324,836**

**Cyfanswm yr ail ddos 114,697**

| | | |
|---|---|---|
| **Pobl 75 oed a'n hŷn** | 96% | 79% |
| **Pobl 70-74 mlwydd oed** | 96% | 52% |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | 94% | 56% |
| **Grŵp 6 (Agored i Niwed)** | 86% | 2% |
| **Pobl 60-64 mlwydd oed** | 93% | 10% |
| **Pobl 55-59 mlwydd oed** | 90% | 12% |
| **Pobl 50-54 mlwydd oed** | 87% | 11% |
| **Pobl 40-49 mlwydd oed** | 76% | -- |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

## Rhestrau wrth gefn

Efallai eich bod wedi gweld bod byrddau iechyd eraill yng Nghymru wedi cyflwyno rhestr wrth gefn ar gyfer eu rhaglen frechu.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, rydym yn brechu ein poblogaeth yn unol â chanllawiau'r JCVI. Rydym yn gwahodd unigolion sy'n gymwys i gael y brechlyn drwy lythyr neu drwy'r feddygfa lle maent wedi cofrestru. Mae gennym broses ar waith lle bydd ein canolfan trefnu brechiadau yn ffonio pobl sy'n gymwys os bydd apwyntiadau'n dod ar gael ar y diwrnod. Mae gennym ffurflen ar-lein y gall pobl ei llenwi os nad ydynt wedi cael eu llythyr gwahoddiad, er mwyn sicrhau nad ydym yn methu neb yn y garfan benodol rydym yn gweithio drwyddi. Mae'n bosib fod gan fyrddau iechyd eraill yng Nghymru brosesau gwahanol ar gyfer gwahodd eu poblogaeth i gael brechlyn - yn dibynnu sut mae eu rhaglen frechu'n dod yn ei blaen. Fodd bynnag, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gallwn roi sicrwydd i'r cyhoedd fod ein proses trefnu brechiadau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, bod y broses yn cael ei hadolygu'n wythnosol ac nad ydym yn teimlo bod angen ei newid ar hyn o bryd.

**Pe byddai 1 miliwn o bobl yn eu 40au yn cael COVID-19, byddai hynny'n arwain at:**

1,000 o farwolaethau — 10,000 o gyfnodau yn yr ysbyty

**Pe byddai 1 miliwn o'r rheiny yn eu 40au yn cael eu brechu â 2 ddos o frechlyn COVID, byddai hynny'n:**

Atal 900 o farwolaethau — Atal 9,000 o gyfnodau yn yr ysbyty

Ffynhonnell: ICC

## Brechiadau yn ystod cyfnod Ramadan



**Nid yw cael eich brechiad yn ystod Ramadan yn cael ei gyfrif fel un sy'n torri'r cyfnod ffasg, gan fod meddyginiaethau wedi'u heithrio.**

Am ragor o wybodaeth, ewch i https://english.alarabiya.net/coronavirus/2021/03/04/Coronavirus-COVID-19-vaccine-does-not-break-Ramadan-fast-UK-Muslim-medical-experts-urge

## Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn.**Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch** i amddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r feirws, a'i drosgwlyddo i eraill.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Grŵp 4 | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 52-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-51 oed | Meddygfeydd |
| 40-49 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Cyrhaeddwch yn brydlon

Peidiwch â dod mwy na 5 munud yn gynnar i'ch apwyntiad os gwelwch yn dda. Er ein bod yn gwerthfawrogi eich prydlondeb ar gyfer eich apwyntiad, gall cyrraedd yn rhy gynnar achosi traffig.

## A yw eich manylion yn gyfredol?

Gwnewch yn siŵr bod gan eich practis meddyg teulu eich manylion cyfredol gan gynnwys eich cyfeiriad a rhif ffôn.

Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i'ch gwahodd i gael eich brechiad.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, ond oherwydd nifer y ffactorau amrywiol, megis darparu'r brechlyn, gall cynlluniau a gyhoeddwyd newid

bipab.gig.cymru